

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 8 Chwefror, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey; W. Gilligan; R.E. Godfrey, E.J. Goodjohn; W.A. Hennessy; N.P. Hodges; J. Lynch-Wilson; N.B. Marshallsea, J.M. Norman ac E. Penn.

Aelodau Cyfetholedig: M. Price (Eglwys Gatholig Rufeinig), L. Barrowclough (Rhiant Lywodraethwr – Sector Cynradd), G. van der Burgt (Rhiant Lywodraethwr – Sector Uwchradd), R. Goodjohn (Fforwm Ieuenctid y Fro) ; G. Scott (Addysg Gymraeg), J. Clemett a T. Williams (Cyngor Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr J. Aviet, R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg), E. Goodjohn, S.M. Hanks. Dr. I.J. Johnson, N.C. Thomas ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Chwefror a 18 Mawrth, 2024 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. STRATEGAETH ARFAETHEDIG CYMDEITHASOL, EMOSIYNOL, IECHYD MEDDWL A LLES 2024-2026 (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) CYMERADWYO cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad eglurhaol atodedig.
- (2) BOD sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini mewn perthynas â Strategaeth Gymdeithasol, Emosiynol, Iechyd Meddwl (CEIM) a Llesiant 2024-2026 y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad eglurhaol atodedig i gadarnhau Strategaeth Gymdeithasol, Emosiynol, Iechyd Meddwl (CEIM) a Llesiant 2024-2026 y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau.

EITEM AGENDA 5. YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I GREU CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL CYFRWNG CYMRAEG YN YSGOL GWAUN Y NANT O FEDI 2024 (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad Cabinet atodol, gan gynnwys manylion y broses ymgynghori ar gyfer y cynnig.
- (2) CYMERADWYO'r cynnig i greu Canolfan Adnoddau Arbenigol Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwaun y Nant, o fis Medi 2024 ymlaen.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad eglurhaol atodedig ar y cynnig i greu Canolfan Adnoddau Arbenigol Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwaun y Nant o fis Medi 2024.

EITEM AGENDA 6. CRYNODEB O GANLYNIADAU AROLYGIAD ESTYN TYMOR YR HYDREF 2023 (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI canlyniadau arolygiad tymor yr hydref o Ysgol Gynradd Victoria ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid.
- (2) LLONGYFARCHIADAU i Ysgol Gynradd Victoria ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid am ddim dilyniant statudol yn dilyn Arolwg Estyn.
- (3) NODI cynnydd y ddwy ysgol yn y Mesurau Arbennig, sef Ysgol Pen y Garth ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad i ddiweddarau'r Pwyllgor ar ganfyddiadau Estyn ar gyfer ysgolion a arolygwyd yn ystod tymor yr hydref 2023.

- (3) Sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am gynnydd y ddwy ysgol yn y Mesurau Arbennig ym Mro Morgannwg.